DATGANIAD I'R WASG
24 Tachwedd 2009

Sioe Dalent yr Urdd!

Bydd gwledd o dalent yn aros y gynulleidfa yn rownd derfynol **Talent FfM 2009** nos Fawrth, 1 Rhagfyr 2009 wrth i gystadleuwyr ar hyd a lled gogledd Cymru ymrafael am y teitl. Bydd y digwyddiad blynyddol, a gynhelir eleni yng Ngwesty'r Springfield, Helygain ger Treffynnon yn croesawu goreuon y tair rownd ragbrofol i arddangos eu doniau o flaen y beirniaid adnabyddus, yr actores **Siân Beca** a'r rapiwr hip hop **Ed Holden**, a adnabyddir fel Mr Phormula. Mae seren y West End, **Mark Evans**, yn llysgennad i'r digwyddiad eleni. Daeth Mark i enwogrwydd Prydeinig wrth gystadlu mewn cystadleuaeth deledu'r BBC *Your Country Needs You,* i ddarganfod perfformiwr i gynrychioli Prydain yn yr Eurovision yn gynharach eleni.

Mae Urdd Gobaith Cymru ynghyd â Menter Iaith Sir y Fflint, Menter Maelor a sefydliadau eraill wedi cydweithio i drefnu cystadleuaeth Talent FfM.

Yn ôl **Darren Morris**, Swyddog Datblygu'r Urdd ym Maelor a Sir y Fflint: "Rydyn ni wedi cael ymateb gwych yn Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych unwaith eto eleni, ac mae cryn gynnwrf ar gyfer y rownd derfynol yng Ngwesty'r Springfield. Bydd y comedïwr, 'Rys y Dreifar Bys', **Chloe** yn canu i gyfeiliant telyn, deuawd gan **Kieran** a **Rebecca** a pherfformiad gan **Seren Wyn Sandham Davies** yn ddim ond rhai o'r perfformwyr fydd yn ymgiprys am y teitl yn ystod y noson. Rydw i'n annog unrhyw un sydd am fynychu i archebu eu tocynnau o flaen llaw!"

Sefydlwyd y gystadleuaeth yn 2007 gan gynnig cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i arddangos eu talentau a pherfformio ar lwyfan o flaen beirniaid proffesiynol.

Yn ôl Darren Morris: ''Mae'r gystadleuaeth hon yn rhoi gofod i bobl ifanc talentog ymarfer eu sgiliau, datblygu hyder a gobeithio ymestyn eu hunain ymhellach o fewn eu maes

penodol. Yn ychwanegol eleni, bydd dau berfformiwr arbennig hefyd yn diddanu'r dorf, sef y canwr hip hop Mr Phormula a'r gantores 14 oed o Wrecsam, **Beca White** sydd newydd ryddhau dwy sengl. Bydd hi'n noson werth chweil, ac rydyn ni'n dymuno'r gorau i'r holl gystadleuwyr!''

Mae'r tocynnau ar gyfer y rownd derfynol yng Ngwesty'r Springfield Hotel, ger Treffynnon nos Fawrth, 1 Rhagfyr am 7:00yh yn £4 cyn y noson a £5 ar y drws. Caiff plant o dan 12 oed sydd o dan oruchwyliaeth oedolyn fynediad am ddim. I archebu tocynnau cysylltwch â Darren ar **01352 744047** neu trwy'r e-bost **Darrenm@urdd.org**

diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonllwyd@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.

menteriaith SIR Y FFLINT

MENTER IAITH MAELOR

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD